

Contract cyffredin i staff

Pam contract cyffredin?

Mae pob coleg addysg bellach (AB) yn cyflogi ei staff dan wahanol gontractau. Mae gan staff wahanol wyliau. Gallai darlithydd mewn un coleg addysgu llai neu fwy o oriau na darlithydd mewn coleg arall. Cred Colegau Cymru a'r cyd-undebau llafur y dylid cytgordio'r amodau gwasanaeth. Mae Llywodraeth Cymru'n cytuno.

Trafodaethau

Mae'r trafodaethau i gytuno contract cyffredin rhwng Colegau Cymru a'r cyd-undebau llafur wedi cymryd ymhell dros 3 blynedd. Buont yn anodd ond yn deg ac mae ystod eang o amodau gwasanaeth wedi'u dwyn ynghyd mewn un contract. Mae cytundeb yn agos.

Diolch i'r trafodaethau, mae'r contract cyffredin wedi mynd trwy nifer sylweddol o ddiwygiadau. Mae'n fanwl iawn a dros 50 tudalen o hyd – mae copïau ar gael gan eich adran adnoddau dynol. Mae contractiau gwahanol ar gyfer categorïau gwahanol o staff wedi eu llunio er mwyn adlewyrchu'r gwahaniaethau rhwng staff ar y raddfa reoli, darlithwyr a staff sy'n cefnogi busnes.

Barn y Gweinidog Addysg a Sgiliau

Ym mis Medi 2011, ysgrifennodd Colegau Cymru at Weinidog Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru i geisio cael eglurhad ar dri phwynt allweddol. Cytunodd fod yn rhaid i gontract cyffredin:

- (i) alluogi colegau i ymateb i anghenion dysgwyr, cymunedau a busnesau
- (ii) cynorthwyo colegau i godi safonau ac ehangu mynediad
- (iii) ar ei waethaf, bod yn niwtral o ran cost i'r sector

Yn benodol, cadarnhaodd y dylai fod *'ateb niwtral o ran cost i Gymru gyfan'*.

Pam mae niwtraliaeth o ran cost yn bwysig?

Rydym yn wynebu hinsawdd economaidd anodd. Mae cyllid yn debygol o fod yn dynn am sawl blwyddyn. Os bydd contract cyffredin yn codi costau'n sylweddol, bydd rhaid i'r colegau ddod o hyd i'r arian o rywle a gallai swyddi a'r gwasanaeth a ddarparwn i ddysgwyr fod mewn perygl.

Contract teg a rhesymol

Mae'r contract y mae'r ddau ochr yn agos iawn at gytuno yn un teg a rhesymol.

Bydd hyn yn anochel, yn golygu newid i aelodau unigol o staff y coleg.

Y contract cyffredin: crynodeb o brif bwyntiau'r cynnig

Staff Cymorth Busnes

- wythnos waith 37 awr
- 30 diwrnod o wyliau + 8 gŵyl banc a hyd at 5 niwrnod effeithlonrwydd (cyfanswm o 43 diwrnod yn y rhan fwyaf o golegau) (*mae hyn uwchlaw cyfartaledd pwysedig y sector o 28 + 8 + hyd at 5 niwrnod*)
- Amser i ffwrdd yn lle os gweithir y tu hwnt i'r oriau arferol neu goramser ar y gyfradd berthnasol

Rheolwyr

- wythnos waith 37 awr
- 37 diwrnod o wyliau + 8 gŵyl banc a hyd at 5 niwrnod effeithlonrwydd (cyfanswm o 50 diwrnod yn y rhan fwyaf o golegau) (*mae hyn uwchlaw cyfartaledd pwysedig y sector o 37 + 8 + hyd at 5 niwrnod*)
- Trafodir amser i ffwrdd yn lle os gweithir y tu hwnt i'r oriau arferol

Darlithwyr

- Wythnos waith 37 awr y mae'n rhaid i 32 awr fod yn y coleg
- 835 o oriau cyswllt y flwyddyn i bob darlithydd (*mae hyn uwchlaw cyfartaledd pwysedig y sector o 832 awr*)
- Oriau blynyddol (telir goramser dim ond os ydy hynny uwchlaw'r oriau cyswllt blynyddol)
- Uchafswm cyswllt dosbarth wythnosol o 24 awr, gydag uchafswm o 26 awr am uchafswm o 7 wythnos fel rheol ar ddechrau'r flwyddyn academiaidd (*mae hyn islaw cyfartaledd pwysedig y sector o 24.5 awr*)
- 5 niwrnod o weithgareddau ysgolheigaidd cyfeiriedig i ffwrdd o 'ddyletswyddau'r adran' (budd newydd i lawer o ddarlithwyr)
- 46 diwrnod o wyliau + 8 gŵyl banc a hyd at 5 niwrnod effeithlonrwydd (cyfanswm o 59 diwrnod yn y rhan fwyaf o golegau) (*mae hyn yr un fath â chyfartaledd pwysedig y sector o 44 + 8 + hyd at 5 niwrnod*). A hawl i 20 niwrnod o wyliau di-dor
- Datblygiad proffesiynol parhaus o 30 awr fesul blwyddyn academiaidd allan o 'ddyletswyddau'r adran' (budd newydd i sawl darlithydd)
- Mae'r dyletswyddau'n cynnwys goruchwyllo arholiadau
- Rhoddir 10% (neu un sesiwn yr wythnos) o ryddhad i Ddarlithwyr ar Brawf (*budd newydd i sawl darlithydd ar brawf*)
- Rhoddir 10% (neu un sesiwn yr wythnos) o ryddhad i staff sy'n ymgymryd â chymhwyster addysgu proffesiynol (*budd newydd i lawer sy'n dilyn cymhwyster proffesiynol*)
- Cydlynu cyrsiau/rhaglenni, gwirio mewnol/safoni mewnol, tiwtora – trefniadau lleol
- Darlithwyr a delir yn ôl yr awr: 20 munud fesul pob awr a addysgir i baratoi/marcio ac amser arall trwy gytundeb lleol am wneud rhai neu holl ddyletswyddau'r adran a gyflawnir gan ddarlithwyr amser llawn neu ffracsiynol (*amrywiaeth eang o ran arfer rhwng colegau ar hyn o bryd*)

Beth sy'n digwydd nesaf?

Mae rhai materion ar ôl i'w cytuno cyn i'r trafodaethau ddod i gasgliad. Mae amserlen ar gyfer y misoedd nesaf wedi ei lunio. Mae'n rhaid i asesiad effaith cydraddoldeb gael ei wneud ac mae angen cael cyngor cyfreithiol terfynol.

Bydd yr undebau ymgynghori â'u haelodau. Mae gofyn i bob corff llywodraethol coleg i benderfynu ar ei ffordd o weithredu. Disgwylir cyrraedd argymhelliad ar gyfer cytundeb erbyn 7 Ionawr 2014. Y bwriad yw y bydd yr holl staff a gwmpesir gan y contract newydd wedi trosglwyddo drosodd i'r contract newydd erbyn 1 Medi, 2016.

Pwynt olaf

Mae colegau'n gwasanaethu anghenion eu dysgwyr, busnesau lleol a chymunedau lleol. Parhânt i godi safonau a darparu'r dinasyddion hyddysg a'r gweithlu hyfforddedig y mae ar Gymru eu hangen. Mae angen iddynt gynnal hyn mewn amgylchedd mwyfwy cystadleuol a beichus a gwneud hynny'n gost effeithiol ac yn gynaliadwy. Felly, rhaid i golegau AB gael gweithlu proffesiynol ac uchel ei gymhelliant.